

Mae'r cyngor yma yn rhoi enghreifftiau o fformatau a chyd-destunau ar gyfer ysgrifennu traethodau ac adroddiadau. Mae'n dangos elfennau gwahanol a thebyg rhwng y ddau fath o ysgrifennu ac yn awgrymu fframwaith beirniadol ar gyfer creu dadl sy'n berthnasol i'r ddau. Nid yw'n darparu'r darlun llawn ac ni fydd yn berthnasol i bob sefyllfa. Dylech chi edrych ar y wybodaeth isod a meddwl sut rydych chi'n gallu ei haddasu i ffitio â gofynion eich aseiniadau eich hunain.

Cwestiwn Traethawd

Beth yw effeithiau rhwydweithio cymdeithasol ar fusnes?

MR10620 Hen Bapurau Arholiad: Cyflwyniad i'r Amgylchedd Busnes (Mai-Mehefin, 2013)

Senario ar gyfer Adroddiad

Rydych chi'n gweithio i asiantaeth marchnata digidol. Mae cwmni manwerthu (*retail*) mawr wedi mynd at eich asiantaeth. (Dewiswch gwmni a sector). Mae'r cwmni am wella ei strategaeth rhwydweithiau cymdeithasol a marchnata digidol, er mwyn mynd i afael â'r heriau mae'n eu hwynebu ar hyn o bryd ac i aros yn gystadleuol yn erbyn manwerthwyr ar-lein mawr. Mae angen ichi ddod o hyd i'r ffactorau allweddol fyddai'n helpu'r cwmni i ddatblygu eu strategaeth ac ysgrifennu adroddiad ar gyfer eu Cyfarwyddwr Marchnata). Nodwch ei sefyllfa bresennol, sut mae'r sefyllfa yn cyfyngu ar eu galluoedd presennol, yr opsiynau sydd ar gael iddynt a'r prif argymhellion ar gyfer strategaeth well.

Mae'r senario hwn yn addasiad o'r cwestiwn traethawd 'Beth yw effeithiau rhwydweithio cymdeithasol ar fusnes?' yn hen bapurau MR10620 Cyflwyniad i'r Amgylchedd Busnes (Mai-Mehefin, 2013)

Mae'r cyngor yma yn rhoi enghreifftiau o fformatau a chyd-destunau ar gyfer ysgrifennu traethodau ac adroddiadau. Mae'n dangos elfennau gwahanol a thebyg rhwng y ddau fath o ysgrifennu ac yn awgrymu fframwaith beirniadol ar gyfer creu dadl sy'n berthnasol i'r ddau. Nid yw'n darparu'r darlun llawn ac ni fydd yn berthnasol i bob sefyllfa. Dylech chi edrych ar y wybodaeth isod a meddwl sut rydych chi'n gallu ei haddasu i ffitio â gofynion eich aseiniadau eich hunain.

Traethodau ac adroddiadau: datblygu ffocws, strwythur a safbwynt

Diddordebau Pwnc

- Beth yw prif bwnc eich aseiniad?
- A yw'n bwnc newydd?
- Beth sydd gennych chi i ddweud amdano sy'n newydd, diddrol neu wahanol?

Gwybodaeth a barn

- Faint o wybodaeth sydd gennych chi am y pwnc?
- Oes barn gennych chi ar y pwnc y gallwch chi ei chymharu ag ymchwil cyhoeddedig yn y maes?
- Ydych chi wedi'i drafod gyda'ch tiwtor? Ydych chi wedi'i drafod gyda'ch cyd-fyfyrwyr?

Dadleuon

- Oes dadleuon o gwmpas y pwnc hwn? Os felly, beth ydyn nhw? Ddylech chi eu hosgoi? Os felly, pam? Os na ddylech chi eu hosgoi, pam ddim?
- Os ydych chi'n gweithio gyda phwnc newydd neu ddadleuol, oes gennych chi ymwybyddiaeth feirniadol o ddadleuon neu safbwyntiau gwahanol?
- Ydych chi'n hyderus y gallech chi amddiffyn neu gefnogi eich dadl eich hunan gyda ffynonellau cyfeiriol digonol?

O adnoddau i ffocysu

- Oes gennych chi ddigon o ffynonellau i gyfeirio atyn nhw er mwyn ysgrifennu trosolwg damcaniaethol o'r pwnc?
- Ydyn nhw ar gael? (Peidiwch â chreu gormod o waith i'ch hunain).
- Ydych chi wedi gwneud y ffocws yn ddigon cul?

Addasiad o Lawlyfr Uwchraddedig yr Adran Astudiaethau Gwybodaeth, Prifysgol Aberystwyth, 2001, gydag ychwanegiadau

John Morgan 2003-2018, Prifysgol Aberystwyth (addasiad Tamsin Davies)

2 | Tudalen

ARFER DA: Dylech chi gyfeirio at awduron yn eich traethodau ac adroddiad pan fyddwch chi'n dyfynnu neu aralleirio eu gwaith. Mae hefyd angen cyfeirio atyn nhw os yw eich syniad yn seiliedig ar syniad neu ddamcaniaeth rhywun arall ond dydych chi ddim yn dyfynnu eu geiriau neu eu haralleirio. Sicrhewch fod cyfeirnodau llawn ar gyfer bob gwaith rydych chi wedi cyfeirio ato yn eich llyfryddiaeth.

Mae'r cyngor yma yn rhoi enghreifftiau o fformatau a chyd-destunau ar gyfer ysgrifennu traethodau ac adroddiadau. Mae'n dangos elfennau gwahanol a thebyg rhwng y ddau fath o ysgrifennu ac yn awgrymu fframwaith beirniadol ar gyfer creu dadl sy'n berthnasol i'r ddau. Nid yw'n darparu'r darlun llawn ac ni fydd yn berthnasol i bob sefyllfa. Dylech chi edrych ar y wybodaeth isod a meddwl sut rydych chi'n gallu ei haddasu i ffitio â gofynion eich aseiniadau eich hunain.

Traethawd: un strwythur posib (damcaniaeth ac ymarfer)

Cyflwyniad	Cefndir	---- Rhoi'r prif bwynt mewn cyd-destun
	Prif bwynt	---- Dehongli'r cwestiwn a nodwch eich safbwynt
	Nod/Strwythur	---- Nodwch y canlyniad posibl
Corff	Arolwg	---- Pa seiliau damcaniaethol mae angen edrych arnynt? Pwy sydd wedi dweud beth am y pwnc hwn?
	Ymarfer	---- Yn seiliedig eich arolwg o ddamcaniaeth y pwnc, ydych yn gallu meddwl am sefyllfa gydag enghreifftiau o sut mae pethau'n gweithio? Gallwch chi ddangos manteision ac anfanteision?
	Trafodaeth	/---- Sut gellir datblygu'r enghreifftiau hyn a/neu ystadegau i gefnogi eich prif ddadl/syniad? ---- Beth yw'r goblygiadau ar gyfer damcaniaeth/ymarfer yn y maes?
Casgliad	Cefndir + prif bwynt	---- Rhoi amlinelliad o beth oedd y traethawd yn ei drafod
	Gweithdrefn	---- Pa ddulliau a ddefnyddiwyd chi i ddatblygu eich safbwynt?
	Datrysiad	---- Ydych chi wedi datrys y broblem hon ai peidio? Oes gennych chi argymhellion?

Mewn traethawd, mae theori ac ymchwil yn dehongli ac yn llywio arfer. Mewn adroddiad, mae arfer yn adlewyrchu a llywio theori.

Adroddiad: fframwaith i'w ddehongli:

Crynodeb Gweithredol	Mae hyn yn crynhoi'r prif bwyntiau, ac yn cynnwys cyflwyniad, pwyntiau allweddol a chasgliad.
	----- Pam gwnaethpwyd rhywbeth a pham mae'n bwysig
	----- Pwrpas yr adroddiad (datrys problem, dichonolrwydd (<i>feasibility</i>) ayyb)
	----- Prif ddarganfyddiadau ac argymhellion pwysig

Mae'r cyflwyniad a chasgliad yn yr adran 'trafodaeth' isod yn cyfateb i'r arolwg a'r drafodaeth mewn corff traethawd.

Trafodaeth	Adnabod problem, safbwynt, posibiliadau, cynigion
Cyflwyniad	----- Cefndir manwl i'r broblem. Trafod materion perthnasol yn y llenyddiaeth.
Profi a datblygu'r hyn rydych yn ei honni	----- Dadansoddi'r sefyllfa a ffactorau perthnasol eraill. Faint o adrannau sydd ei angen i ddehongli'r sefyllfa?
Casgliad ac argymhellion	----- Beth mae hyn yn ei olygu yng ngoleuni'r dadansoddiad, pryderon corfforaethol a/neu'r diwydiant, yr ymateb gan y cyhoedd, ayyb. Beth sydd angen ei wneud?

Atodiadau Gwybodaeth (siartiau, ystadegau, diagramau) sy'n rhy hir i'r drafodaeth. Maent yn ddefnyddiol ond ddim yn berthnasol yn uniongyrchol i'r dadl. Peidiwch â chynnwys mwy na 2 neu 3 tudalen o atodiadau os yn bosib (DS: dydyn nhw ddim yn rhan o'r terfyn geiriau).

ARFER DA: Dylech chi gyfeirio at awduron yn eich traethodau ac adroddiad pan fyddwch chi'n dyfynnu neu aralleirio eu gwaith. Mae hefyd angen cyfeirio atyn nhw os yw eich syniad yn seiliedig ar syniad neu ddamcaniaeth rhywun arall ond dydych chi ddim yn dyfynnu eu geiriau neu eu haralleirio. Sicrhewch fod cyfeirnodau llawn ar gyfer bob gwaith rydych chi wedi cyfeirio ato yn eich llyfryddiaeth.